**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref CS/05387/14

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Tachwedd 2014

Annwyl Alun

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Hydref. Roedd yr ymchwiliad, yn fy marn i, yn ddefnyddiol gan iddo dynnu sylw at bryderon y rhanddeiliaid coedwigaeth a'n helpu i glustnodi'r meysydd lle gallai Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r sector i ddatblygu cynllun i gryfhau'r gefnogaeth i'r diwydiant coedwigaeth.

Dyma'r meysydd hynny:

1. Gwella ansawdd y cyfathrebu â'r sector coedwigaeth
2. Bod yn fwy agored ynghylch rheoliadau coedwigaeth a lefelau cydymffurfio
3. Bod yn fwy agored ynghylch ffeithiau a ffigurau cynhyrchu pren, rhagolygon a chyflenwi
4. Rheolaeth well ar gynhyrchu a chyflenwi pren ar ystâd goed Llywodraeth Cymru ac adnodd coedwigoedd Cymru
5. Cydnabod effaith rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig a gwneud penderfyniadau ar sail ecosystem ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud trwy ei strategaeth goedwigaeth, *Coetiroedd i Gymru* ac yn y sector coedwigaeth
6. Pennu rôl a phwrpas ystâd goed Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaeth strategol o ran rhoi blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar waith
7. Gwella'r gefnogaeth i'r sector coedwigaeth i weithredu yn unol â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru trwy dargedu cyllid, cyngor ac arweiniad yn effeithiol
8. Hyrwyddo buddiannau coedwigaeth
9. Cadarnhau bod digon o sgiliau coedwigaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru
10. Paratoi adroddiadau ar gynnydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru'n gweithio eisoes gyda'r sector coedwigaeth i ddatblygu cynllun ar gyfer gweithredu'r 10 maes allweddol uchod. Bydd amcanion penodol iddo.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk
*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Fel ym mhob corff newydd, daw cyfnod pan fydd yn rhaid rhoi ar waith y newidiadau anorfod i'r trefniadau blaenorol.  Bydd hynny'n destun peth siom ond rwy'n siŵr y gwnewch chi gytuno fod y corff newydd yn mynd rhagddo'n dda.  Rwy'n credu y bydd hynny'n parhau. Mae staff ac aelodau Cyfoeth Naturiol o ddifrif ynghylch eu gwaith, ac fel ein corff rheoli tir mwyaf, maen nhw'n ymroi i ddarparu gwasanaeth sy'n gwella i bobl Cymru.  Mae ganddyn nhw lond côl o waith i'w wneud ac er mai megis dechrau ydym ni ar hyn o bryd, gyda chefnogaeth eu rhanddeiliaid a'u partneriaid, byddan nhw'n cryfhau.  Dyna pam rwy'n croesawu'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi'u rhoi ger fy mron mewn cysylltiad â'r ymchwiliad hwn.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â chynrychiolwyr y sector coedwigaeth a byddaf yn cadw golwg ar y meysydd allweddol gyda nhw.  Rwy'n hyderus y gallwn ddisgwyl ymlaen at gymryd camau positif a ffrwythlon ymlaen yn hyn o beth.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources